## Derbyn i Ysgol Uwchradd Medi 2024

Pan fo ysgol wedi'i henwi ar ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig /Cynllun Datblygu Unigol, mae gan y Cyngor ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r lleoliad hwnnw cyn i'r meini prawf gordanysgrifio gael eu defnyddio yn erbyn y ceisiadau a dderbyniwyd. Bydd hyn yn lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael i ymgeiswyr eraill. Os yw cyfanswm y ceisiadau am dderbyn i ysgol uwchradd yn fwy na nifer y lleoedd, defnyddir y drefn ganlynol o flaenoriaeth i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal (plant sydd mewn gofal cyhoeddus) a phlant oedd yn arfer derbyn gofal
2. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n cyflwyno cais ar sail feddygol
3. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch gyda brodyr/chwiorydd perthnasol
4. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sy'n gwneud cais ar sail feddygol
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch gyda brodyr/chwiorydd perthnasol
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch

Ar ôl ystyried y categoriau uchod, neu os yw nifer y ceisiadau yn unrhyw un o'r categoriau uchod yn fwy na'r nifer derbyn a gyhoeddwyd, roedd blaenoriaeth yn seiliedig ar y plant oedd yn byw'n agosach i'r ysgol ddewisol.

| Ysgol | Nifer y blaenoriaethau a fynegwyd | Llefydd ar gael (nifer derbyn a gyhoeddwyd) | Nifer y lleoedd mewn Dalgylch a Mannau â Blaenoriaeth Uchel a ddyrennir | Nifer y lleoedd heb ddalgylch a ddyrennir | Nifer y rhai a wrthodwyd | Nifer y llefydd sy'n weddill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Bassaleg** | 473 | 330 | 275 | 55 | 17 | 0 |
| **Ysgol Gyfun Caerllion** | 269 | 248 | 132 | 115 | 0 | 1 |
| **Ysgol Uwchradd Llanwern** | 225 | 260 | 138 | 41 | 0 | 81 |
| **Ysgol Uwchradd Llysweri** | 229 | 240 | 142 | 38 | 0 | 60 |
| **Ysgol Uwchradd Casnewydd** | 223 | 203 | 178 | 17 | 0 | 8 |
| **Ysgol Sant Julian** | 368 | 242 | 153 | 89 | 31 | 0 |
| **Ysgol John Frost** | 394 | 248 | 240 | 8 | 25 | 0 |
| **Ysgol Gyfun Gwent Is Coed** | 97 | 150 | 86 | 6 | 0 | 58 |